**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

2 Hydref 2023

Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4)

Annwyl Weinidog,

Yn ei gyfarfod ar 28 Medi, trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Atodol) (Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio. Y mae eisoes wedi cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol cyntaf ar gyfer Bil.

Nid yw'r Pwyllgor yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Atodol diweddaraf, ond cytunodd i ysgrifennu atoch i ofyn i chi egluro rhai pwyntiau cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 13 Hydref:

- Mae paragraffau 93 – 103 o'r Memorandwm Atodol (Rhif 4) yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a gynigiwyd i Ran 1 o'r Bil - Cenadaethau Ffyniant Bro. Ym mharagraff 111, rydych yn dweud eich bod o'r farn bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 4 Gorffennaf 2023 i Ran 1 o'r Bil yn gwella'r sefyllfa a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig gwreiddiol ar gyfer y Bil hwn, a osodwyd ar 25 Tachwedd, i'r graddau eich bod yn awr yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil. Yn y Memorandwm diwygiedig hwnnw, argymhellwyd na ddylid rhoi cydsyniad i Ran 1 o'r Bil. Ym mharagraffau 97 a 98 o'r Memorandwm Atodol (Rhif 4), rydych yn manylu ar y pryderon sy'n parhau mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil, a nodir y pryderon hefyd ym mharagraff 111. Byddai'n ddefnyddiol felly cael rhagor o wybodaeth er mwyn deall sut

mae'r sefyllfa wedi gwella yn eich barn chi, a rhagor o wybodaeth am y pryderon sy'n parhau mewn perthynas â Rhan 1, yn enwedig o ystyried eich bod yn awr yn argymell y dylid rhoi cydsyniad.

- Byddai hefyd yn ddefnyddiol gwybod pam y gosodwyd y Memorandwm Atodol (Rhif 4) dros fis ar ôl i'r gwelliannau gael eu cyflwyno;
- A allwch chi gadarnhau a gyflwynwyd unrhyw welliannau eraill  sydd wedi dileu cymalau yr oedd angen i'r Senedd roi cydsyniad iddynt yn flaenorol; ac yn olaf,
- A allwch chi gadarnhau a yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen i'r Senedd roi cydsyniad i'r cymalau a'r atodlenni fel y'u diwygiwyd neu a fewnosodwyd gan y gwelliannau a nodwyd ym Memorandwm Atodol (Rhif 4).

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb i'r pwyntiau hyn cyn gynted â phosibl, a chyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg